

Tridiau o brofiad Gwaith i ddysgwyr Gorffennaf/Awst 2015

Trwy gydweithrediad a chefnogaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru rydym yn gallu cynnig profiad gwaith i ddysgwyr lefel uwch/canolradd (eitha rhugl) Canolbarth Cymru cyn yr Eisteddfod ym Meifod ac yn ystod yr Eisteddfod.

Mae'r profiad gwaith isod ar gael cyn yr Eisteddfod:

2 berson yn Swyddfa'r Eisteddfod – Runner a dyletswyddau cyffredinol (llungopio, pecynnau carafanau at ei gilydd ayyb, cymorth i Elen / Elfed.

2 berson ym Maes D – Helpu gosod y babell, (runner)

1 berson i helpu gyda'r Cyngherddau (runner)

1 -2 berson yng Nghanolfan Ymwelwyr – Helpu dadbacio, llungopio, desg wybodaeth (Bydd gan ddysgwyr lleol wybodaeth am yr ardal leol).

Mae'r profiad gwaith isod yn ystod wythnos yr Eisteddfod:

2 berson yn Swyddfa'r Eisteddfod – Runner, dyletswyddau cyffredinol, desg ymholiadau, Helpu'r adran gyfathrebu (llungopio pecynnau i'r Wasg / Helpu trefnu 'Stafell y Wasg)

2 berson ym Maes D – Runner, helpu'n gyffredinol

1 person Lle Celf – Tywyswyr – Os oes gan ddysgwyr ddiddordeb mawr mewn Celf, mae'n bosib iddynt fynd ar gwrs i fod yn dywyswyr. Helpu'n gyffredinol.

1 person Canolfan Ymwelwyr – Desg wybodaeth, llungopio, cylchredeg taflenni o gwmpas y Maes ayyb

Manylion pellach

Bydd yr Eisteddfod yn neilltuo aelod o staff yr Eisteddfod i fod yn gyfrifol am bob un o'r dysgwyr.

Bydd rhaid i'r dysgwyr weithio tridiau llawn, sef o 9.00 – 5.00 ar y diwrnodau canlynol cyn yr Eisteddfod - Dydd Mercher 29 Gorffennaf – Dydd Gwener 31 Gorffennaf, ond efallai bydd angen bod yn hyblyg o ran amser os oes rhai aelodau o staff yr Eisteddfod eisiau cymorth yn hwyrach gyda'r nos.

Bydd Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru yn trefnu ac yn talu am lety (os oes angen), a treuliau yr unigolion fydd ar brofiad gwaith.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru

0800 876 6875 cymraegioedolion@aber.ac.uk cyntaf i'r felin gaiff falu